TAFLEN GWYBODAETH

Rhedeg busnes o gartref

Mae'r daflen hon yn egluro beth ydych angen ei wybod a'i wneud os ydych am redeg busnes o eiddo sy'n berchen i CCG.

Mae CCG yn cefnogi pobl sy'n hyfforddi a chynlluniau dychwelyd i waith ar gyfer ein cwsmeriaid a phreswylwyr lleol. Rydym yn cydnabod bod busnesau sy'n cael eu rhedeg o'r cartref yn cael effeith bositif drwy gynyddu incwm a rhoi profiadau a sgiliau i denantiaid.

Os ydych am redeg busnes neu gwmni o'ch cartref bydd angen i chi ofyn am ganiatâd CCG yn gyntaf.

Mae yna sawl math o fusnes y gall tenantiaid eu rhedeg o'u cartref heb achosi unrhyw anawsterau. Fel arfer byddwn yn rhoi ein caniatâd ond rhaid i ni fod yn siŵr na fydd y busnes yn ymyrryd neu ddifrodi'r eiddo neu achosi niwsans neu aflonyddwch i eraill yn y gymdogaeth.

Byddwn yn asesu pob cais yn unigol. Efallai y bydd angen i chi gael caniatâd cynllunio, trwydded neu gofrestru.

Beth mae defnydd busnes yn ei olygu?

- Creu rhywbeth neu ddarparu gwasanaeth sydd ddim ar eich cyfer chi neu eich teulu yn unig.
- Eich bod yn cael rhyw fath o daliad am gynnyrch neu wasanaeth.

Pam bod angen i CCG wybod os ydw i yn rhedeg busnes o'm cartref?

- Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y defnydd busnes yn rhesymol ac nad yw'n achosi unrhyw niwsans neu aflonyddwch i eraill yn y gymdogaeth.

Beth yw'r mathau rhesymol o ddefnydd busnes mewn cartref CCG?

Caiff bob cais ei asesu yn unigol - byddwn fel arfer yn rhoi caniatâd cyn belled â:

- Bod eich busnes ddim yn gallu achosi niwsans neu aflonyddwch i berson arall yn y gymdogaeth.
- Nad oes yna unrhyw fyrddau hysbysebu neu arwyddion mawr o flaen yr eiddo a'ch bod wedi derbyn caniatâd CCG
- Nad ydych yn defnyddio offer cynhyrchu ar raddfa fawr
- Nad ydych yn storio deunydd fflamadwy fel silindrau nwy propylen neu bwten
- Eich bod wedi cael caniatâd cynllunio, trwyddedau neu gofrestru angenrheidiol
- Nad ydych yn difrodi eiddo CCG
- Eich bod yn gofyn am ganiatâd CCG ar gyfer unrhyw welliannau neu newidiadau gofynnol mewn perthynas â'r busnes
- Nad yw eich busnes yn torri amodau eich cytundeb tenantiaeth

Dyma enghreifftiau o ddefnydd busnes rhesymol o'ch cartref:

- Busnes archebion drwy'r post, glanhawr ffenestri, gofal plant, trwsio cyfrifiaduron, gwasanaethau glanhau, gwaith gweinyddol, addurno cacennau, busnes dros y ffôn neu'r we (nid yw hon yn rhestr gyflawn)

Yn parhau drosodd >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

T A F L E N G W Y B O D A E T H

Rhedeg busnes o gartref

Cael caniatad i redeg busnes - beth i'w wneud nesaf?

- Bydd angen i chi wneud cais ysgrifenedig i redeg busnes o'ch cartref.

Gallwch lawr lwytho copi o'r '*Ffurflen Gais Rhedeg Busnes o Gartref*' ar www.ccgwynedd.org.uk neu drwy gysylltu gyda ni ar 0300 123 8084.

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- Enw llawn a manylion cyswllt
- Manylion llawn o'r defnydd busnes
- Unrhyw newidiadau/addasiadau i'r eiddo gan gynnwys arwyddion
- Unrhyw siediau/adeiladau allanol gofynnol
- Unrhyw gerbydau masnachol y byddwch yn eu defnyddio
- Oriau busnes
- Unrhyw sŵn tebygol neu anghyfleustra i gymdogion a sut y byddwch yn ceisio cadw hyn i lawr
- Dogfennau ychwanegol i gefnogi eich cais
- Gofynion cais cynllunio, trwydded neu gofrestru

NODYN - Ni ddylech ddechrau busnes o'ch cartref sy'n berchen i CCG nes y byddwch wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan CCG.

Ni fydd caniatâd yn cael ei ddal yn ôl mewn ffordd afresymol.

Tynnu Caniatâd yn ei ôl

Mae gan CCG yr hawl i dynnu unrhyw ganiatâd sydd wedi ei roi ar gyfer rhedeg busnes yn ei ôl unrhyw dro neu osod amodau os bydd problemau yn codi pan fydd y busnes yn weithredol.

Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch gyda ni ar **0300 123 8084**, ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu drwy ein gwefan www.ccgwynedd.org am fwy o wybodaeth.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Running a business from home

This fact sheet explains what you need to know and what to do if you wish to run a business from a CCG owned property.

CCG is committed to supporting training and back to work initiatives for our customers and local residents. We recognise that home enterprise can have a positive impact by increasing income and equipping tenants with experience and skills.

If you wish to run a business or trade from your home you will need to have CCG's permission first.

There are many types of business that a tenant could run from home without causing any difficulties. We will normally give permission but we have to be sure that the business will not interfere with or damage the property or cause nuisance or annoyance to other persons in the neighbourhood.

We will assess each application on an individual basis. You may also need to get Planning permission a licence or registration.

What is meant by business use?

- Producing something or providing a service which is not only for your own or your family's use
- Getting some kind of payment for your product, produce or service.

Why does CCG need to know if I am running a business from my home?

- We need to make sure that the business use is reasonable and that it does not cause a nuisance or annoyance to your neighbours or others in the neighbourhood.

What is a reasonable type of business use in a CCG home?

Each application is assessed individually – we would normally grant permission provided that:

- Your business is not capable of causing any nuisance or annoyance to any other person in the neighbourhood
- There are no large/intrusive advertising boards or signs showing from the property and that you have obtained CCG permission
- You are not using large scale manufacturing equipment
- You are not storing inflammable materials such as propane or butane gas cylinders
- You have any planning permission, licences or registration that are needed
- You are not damaging CCG property
- You seek CCG's permission for any improvements or alterations required in relation to the business
- Your business does not breach your tenancy conditions

Examples of reasonable business use in your home may include:

- Mail order business, window cleaner, child care, computer repair, cleaning services, administration work, cake decorating, internet or telephone based business (this list is not exhaustive)

Continues >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Running a business from home

Getting permission to run a business – what to do next?

- You will need to apply in writing to run a business from your home.

A copy of the *'Running a business from your home application form'* is available to download on www.ccgwynedd.org.uk or by contacting us on 0300 123 8084.

Remember to include the following details:

- Full name and contact details
- Full details of planned business use
- Any planned changes/alterations to the property including signage
- Any planned sheds/outbuildings required
- Any commercial vehicles which you will use
- The hours of business
- Any likely noise or inconvenience to neighbours and how you aim to keep this to a minimum
- Additional documentation to support your application
- Planning permission, licence or registration requirements

NOTE - You should not start a business from your CCG home until you have received permission in writing from us.

Permission will not be unreasonably withheld.

Withdrawal of Permission

CCG has a right to withdraw permission granted for running a business from home at any time or to impose conditions if problems arise from operation of the business.

For more information

Contact us on **0300 123 8084**, enquiries@ccgwynedd.org.uk or on our website www.ccgwynedd.org for more information.

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD